# Gwaith Byrfyfyr Cerddorol i Ddechreuwyr

## Mwy o Syniadau ac Ysbrydoliaeth

### Fideo 1: Alawon

#### Mwy o syniadau.

Ceisiwch chwarae gyda rhai patrymau gwahanol i ddod o hyd i gyfuniad o nodau sydd at eich dant.

Enw un o'r patrymau rwy'n ei hoffi yw 'leapfrog', sef chwarae 1, sgipio 2, chwarae 3. Yna, ewch nôl i 2, sgipio 3, a chwarae 4.

Rhowch gynnig ar hyn yr holl ffordd i fyny'r raddfa. Mae'n fy helpu i i'w gweld nhw mewn parau, felly rydw i wedi rhoi slaes rhwng pob grŵp i'w wneud yn glir.

1-3/2-4/3-5/4-6/5-7/6-8

Ac yn ôl:

8-6/7-5/6-4/5-3/4-2/3-1

#### Ysbrydoliaeth

Mae darn byrfyfyr sy'n dechrau'n araf, ac yna'n ychwanegu mwy o nodiadau yn raddol, yn cael ei alw'n alap yng ngherddoriaeth glasurol Gogledd India. Gwrandewch ar sut mae Soumik Datta yn cynyddu'r dwyster yn raddol wrth iddo chwarae Raag Gorakh Kalyan: https://www.youtube.com/watch?v=Mshi-7hfKJM

### Fideo 2: Grŵf

#### Mwy o syniadau

Fe allech chi gynhyrchu rhythmau drwy ddefnyddio unrhyw eiriau. Gallai rhai brawddegau da i ddechrau gynnwys: 'Mae'n boeth iawn heddiw' / 'Rwyf hoffi bananas' / 'Mae'n chwarter wedi dau'

Fe allech chi hyd yn oed roi cynnig ar y rhythmau rydych chi wedi'u creu gyda phatrymau o'n fideo diwethaf ar alawon.

#### Ysbrydoliaeth

Gwrandewch ar gerddoriaeth Steve Reich ar gyfer Offerynnau Morthwylion Pren, Lleisiau ac Organ. Mae'r darn hwn yn enghraifft wych o ddefnyddio rhythm yn effeithlon; dod o hyd i grŵf da a rhoi lle iddo ddatblygu. Gallech hyd yn oed roi cynnig ar wneud eich darn byrfyfyr eich hun, gyda rhythmau sy'n newid yn raddol:
https://www.youtube.com/watch?v=e9EvbSvaH4g

## Fideo 3: Delweddau

### Mwy o syniadau

Ceisiwch efelychu synau heblaw dŵr. Mae byd natur yn lle gwych i ddechrau, felly beth am fynd am dro a gwrando ar gân yr adar, dail yn y gwynt, neu edrych ar siâp planhigion wrth iddyn nhw dyfu. Sut allech chi droi'r rhain yn syniadau cerddorol?

### Ysbrydoliaeth

Y Geiriau Coll: Albwm yw Spell Songs sy'n cael ei ysbrydoli gan fyd natur, sy'n aml yn ymgorffori byd natur yn eu cerddoriaeth: https://www.youtube.com/watch?v=S1zPZXNLvRo